FIN(3)-14-10 : Papur 5

**Gwenda Thomas AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Angela Burns AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol
Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5ed. Gorffennaf 2010

Annwyl Angela.

**Y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)**

Ysgrifennaf i ymateb i faterion a gododd yn sgîl adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru).

Yn ei adroddiad, "nododd y Pwyllgor y byddai trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw'n berthnasol i'r awdurdodau lleol yn unig ac mae'n cymryd, pan mai awdurdod iechyd yw'r awdurdod arweiniol, y byddai'r arian yn cael ei drosglwyddo i'r broses ddyrannu arferol ar gyfer y sector hwnnw". Yn y ddadl ar y Mesur arfaethedig yn y cyfarfod llawn ar 8 Mehefin, dywedoch hefyd bod y Pwyllgor wedi "methu ag egluro a fyddai'r cyllid yn cael ei gyflenwi drwy'r GIG neu drwy ffrydiau llywodraeth leol" a mynegodd bryderon ynghylch "effeithiau'r newid yn y mecanwaith ariannu ar ddiwedd y cyfnod cychwynnol."

Y bwriad yw i'r cyllid gael ei dalu yn y lle cyntaf i'r awdurdod arweiniol dynodedig sy'n gyfrifol am gydlynu a goruchwylio'r gwaith o baratoi, cyhoeddi, gweithredu ac adolygu pob strategaeth. Bydd pob awdurdod arweiniol yn gyfrifol wedyn am ddosbarthu'r cyllid i awdurdodau perthnasol eraill a fydd yn achosi gwariant wrth ddatblygu a/neu weithredu pob strategaeth. Yn ôl y drafft presennol o'r Mesur, un o sefydliadau'r GIG fydd yr awdurdod arweiniol, ac rwyf i wedi nodi'r rhesymau dros fabwysiadu'r dull gweithredu hwn yn y Memorandwm Esboniadol ac mewn tystiolaeth i'r pwyllgorau craffu. Amlinellir y trefniadau arfaethedig ym mharagraff 5.2 o'r papur a amgaeais gyda'm llythyr atoch dyddiedig 15 Mawrth. Rydych yn gywir pan ddywedwch na fyddai'r cyllid ond yn trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw pe bai'r awdurdod arweiniol yn awdurdod lleol, ac mae'n ddrwg gen i os yw'r pwynt hwn wedi achosi dryswch. Rydym yn gwbl bendant y bydd y cyllid yn trosglwyddo yn y pen draw i ddyraniadau refeniw arferol y GIG pan fo'r awdurdod arweiniol yn un o sefydliadau'r GIG. Pan fyddai'r cyllid yn trosglwyddo, byddai'r awdurdod arweiniol yn gyfrifol o hyd am sicrhau y dosberthir y cyllid i awdurdodau perthnasol eraill sy'n parhau i achosi gwariant mewn perthynas â'r strategaeth a gytunwyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8635
Correspondence.Gwenda.Thomas@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi adrodd am ei bryderon bod y dull gweithredu hwn "yn rhedeg yn groes i amcan y polisi ehangach o integreiddio a symleiddio mecanweithiau ariannu ac o ddefnyddio llwybr sengl pan mae gwasanaethau'n rhychwantu'r GIG a llywodraeth leol. Yn achos gofalwyr, mae'r Pwyllgor ar ddeall mai awdurdodau lleol ddylai arwain."

Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldebau statudol penodol i gynnal asesiad o anghenion y gofalwr a'r ddarpariaeth gwasanaethau. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi helpu llywodraeth leol i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn drwy amryw o gynlluniau grant. Mae'r adnoddau grant hyn ar gael o hyd i Awdurdodau Lleol ond cânt eu dosbarthu bellach drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Nid yw'r Mesur arfaethedig yn delio ag asesiadau a gwasanaethau fel y cyfryw, ond yn hytrach gyda gwybodaeth ac ymgynghori, a bydd yn gosod dyletswyddau statudol newydd ar lywodraeth leol ac ar y GIG. Yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau craffu eraill, rwyf eisoes wedi esbonio pam yr wyf yn cynnig y dylai sefydliadau'r GIG gael eu dynodi'n awdurdodau arweiniol at ddibenion y Mesur arfaethedig hwn, a chafwyd cefnogaeth i hyn mewn adroddiad gan y Gr• p Cyfeirio Rhanddeiliaid sy'n cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol a'r GIG. Yn ystod dadl y cyfarfod llawn yngl• n ag egwyddorion y Mesur arfaethedig ar 8 Mehefin 2010, fe nodais y byddwn yn ailystyried a ddylid parhau â'r cyfyngiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod arweiniol fod yn sefydliad o'r GIG. Rwyf bellach wedi penderfynu cynnig gwelliant gan y Llywodraeth yn ystod Cam 2 y broses graffu a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi unrhyw awdurdod perthnasol yn awdurdod arweiniol. Rwy'n cydnabod bod y gwelliant hwn yn gam doeth a fydd yn sicrhau hyblygrwydd yn y dyfodol, ond serch hynny tybiaf o hyd y byddai'n briodol dynodi un o sefydliadau'r GIG yn awdurdod arweiniol yn ystod cam cyntaf gweithredu'r mesur.

Yn olaf, mae'r Pwyllgor yn nodi yn ei adroddiad "mai £0.343m yn unig oedd cyfanswm yr ariannu yr oedd y GIG yn ei gael ar gyfer gofalwyr". Yn fy llythyr atoch dyddiedig 5 Mai, esboniais mai hwn yw'r adnodd sydd ar gael ar gyfer 2010-11 o fewn Llinell Wariant Cyllideb y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr, o fewn Prif Gr• p Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n gyllid canolog, sy'n cael ei ddal a'i weinyddu gan Lywodraeth y Cynulliad ac mae'n gwbl ar wahân i wariant refeniw'r GIG ac awdurdodau lleol ar ddarparu gwasanaethau a chymorth i ofalwyr. Nid yw'r ffigur ar gyfer 2010-11 yn cynnwys unrhyw elfen o'r cyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod chwaith, yr ydym wedi'i ddyrannu'n ddangosol ar gyfer gweithredu'r Mesur arfaethedig.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn helpu i egluro'r materion hyn.

Yn gywir

Gwenda.

**Gwenda Thomas AC/AM**